



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

**The Potteries
Aber-miwl
SY15 6JH**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros
Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor,

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/01/2017

Cyd-destun

Agorodd ysgol The Potteries ym mis Tachwedd 2012. Mae'r ystafell ddosbarth wedi'i lleoli mewn tŷ mawr yn Aber-miwl ger y Drenewydd, sydd hefyd yn gartref plant. Mae The Potteries yn ganolfan asesu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mynychu rhaglen 26 wythnos, sy'n cynnwys asesiad 16 wythnos, cyn symud ymlaen i leoliadau hirdymor.

Mae'r perchennog, CareTech UK, yn gwmni cyfyngedig sy'n berchen ar gartrefi plant ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r cartref plant wedi'i gofrestru gydag AGGCC ar gyfer hyd at bedwar o bobl ifanc rhwng 10 a 18 oed. Awdurdodau lleol sy'n gofalu am bob un o'r bobl ifanc sy'n cael eu gosod yn The Potteries ac mae gan bob un ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Y prif angen a nodwyd yw anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae'r ysgol yn darparu addysg amser llawn i'r holl bobl ifanc sydd wedi'u gosod yn y cartref plant. Mae gweithwyr gofal preswyl yn cefnogi'r pennaeth o ddydd i ddydd. Maent yn mynychu ymweliadau addysgol a gweithgareddau chwaraeon gyda'r disgyblion yn ystod y diwrnod ysgol. Mae pennaeth addysg yn goruchwyllo'r ddarpariaeth addysg ar draws ysgolion y cwmni.

Prif ganfyddiadau

Cryfderau

Mae'r holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu yn ystod eu lleoliad. Datblygant eu medrau mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd, medrau cymdeithasol a medrau bywyd ac maent yn cymhwyso'r rhain yn briodol mewn sefyllfaoedd ymarferol.

Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda. Maent yn gwrtais i staff ac i ymwelwyr.

Mae gan yr ysgol system drylwyr o asesiadau gwaelodlin ar gyfer pob disgybl. Mae hyn yn caniatáu i'r pennaeth nodi cryfderau a galluoedd presennol disgyblion. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio'n dda i lywio'r gwaith o gynllunio gwersi yn yr ystafell ddosbarth. O ganlyniad, mae gan y pennaeth ddealltwriaeth dda o anghenion y disgyblion ac mae'n gwneud yn siwr bod y dysgu'n berthnasol i ddiddordebau'r disgyblion unigol.

Mae'r pennaeth yn dangos ymrwymiad cryf i wella ansawdd addysg yn yr ysgol. Mae ganddo ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau'r ysgol a'i phrif feysydd i'w datblygu.

Meysydd i'w datblygu

Mae gan yr holl weithgareddau addysgol, ar y safle ac oddi ar y safle, amcanion dysgu sy'n cael eu gosod gan y pennaeth. Mae'r amcanion hyn yn perthyn yn dda i'r gweithgaredd ac yn llunio cysylltiadau defnyddiol â datblygiad llythrennedd, rhifedd a medrau cymdeithasol. Fodd bynnag, mewn llawer o'r gweithgareddau oddi ar y safle, mae'r amcanion dysgu yn rhy gyffredinol ac nid ydynt yn cysylltu'n ddigon da â'r amcanion sy'n cael eu gosod yn yr ystafell ddosbarth. Nid yw staff bob amser yn defnyddio'r amcanion dysgu yn ddigon da i arfarnu cynnydd disgyblion a nodi'r camau nesaf yn eu dysgu.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno proses drylwyr o arsylwadau ar gyfer yr holl staff. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn coladu deilliannau'r arsylwadau hyn yn ddigon da i lywio datblygiad proffesiynol nac i alluogi'r ysgol i rannu arfer orau.

Mae'r ysgol wedi llunio adroddiad hunanarfarnu defnyddiol sy'n nodi ei chryfderau a'i phrif feysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chasglu o asesiadau rheolaidd yn ddigon da yn yr adroddiad hunanarfarnu i ddadansoddi cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau unigol. O ganlyniad, nid yw'r hunanarfarniad yn canolbwyntio'n ddigonol ar safonau.

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod amcanion dysgu yn benodol a'u bod yn cael eu cynllunio'n gyson ar draws holl feysydd darpariaeth addysgol yr ysgol
- A2 Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu'n canolbwyntio'n glir ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr holl weithgareddau addysgol a ddarperir gan yr ysgol
- A3 Coladu gwybodaeth o arsylwadau staff i lywio datblygiad staff

Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

Argymhelliad 1: Gwella presenoldeb disgyblion ymhellach

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol amrywiaeth o anawsterau cymdeithasol ac emosiynol cymhleth. Mae gan bob un o'r disgyblion hanes o bresenoldeb gwael mewn lleoliadau addysgol blaenorol ac mae lleoliadau llawer ohonynt wedi methu sawl tro.

Mae cyfradd bresenoldeb disgyblion yn yr ysgol wedi gwella 14 pwynt canran dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae lefelau presenoldeb llawer o ddisgyblion yn dangos gwelliant o gymharu â'u presenoldeb cyn ymuno â'r ysgol. Y gyfradd bresenoldeb gyfartalog ar gyfer 2015-2016 yw 81.6%. Mae cyfradd yr absenoldebau awdurdodedig wedi gostwng dros y ddwy flynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae cyfradd yr absenoldebau anawdurdodedig wedi aros yn ddigyfnewid dros yr un cyfnod. Mae'r pennaeth yn monitro ac yn olrhain data presenoldeb yn briodol.

Mae nifer bach iawn o ddisgyblion yn parhau i beidio â mynychu'n gyson ac mae hyn yn cael effaith arwyddocaol ar gyfradd bresenoldeb gyffredinol yr ysgol.

Argymhelliad 2: Gwneud yn siŵr bod pob disgybl yn cael addysg rhyw a pherthynas

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Caiff pob disgybl raglen addysg bersonol a chymdeithasol briodol sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am amrywiaeth o faterion pwysig fel diogelwch personol a rhyw a pherthynas. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno cynllun gwaith achrededig ar ryw a pherthynas ar gyfer pob disgybl ym Mlwyddyn 9 ac uwch.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i fynd i'r afael ag anghenion penodol y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol wedi ffurfioli'r trefniadau gyda'r gwasanaeth iechyd lleol i wneud yn siŵr bod pob disgybl yn gallu cael at wasanaeth y nyrs plant sy'n derbyn gofal am o leiaf ddwy sesiwn yn ystod eu lleoliad.

Argymhelliad 3: Ymestyn y cyfleoedd addysgol i ddisgyblion ôl-16

Nid yw'r argymhelliad hwn yn berthnasol mwyach.

Argymhelliad 4: Gwella hunanarfarnu fel ei fod yn cynnwys adborth gan bob rhanddeiliaid ac yn canolbwyntio'n fwy ar ddeilliannau

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi datblygu systemau priodol i arfarnu effaith y rhan fwyaf o'i gwaith. Mae'n defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth uniongyrchol fel data presenoldeb, deilliannau arsylwadau gwersi ac asesiadau lles. Mae'r ysgol wedi cyflwyno prosesau addas i gasglu barn rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleoli, rhieni a gofalwyr. Defnyddir y wybodaeth hon yn dda i lywio'r cynllun hunanarfarnu a chynllun gwella'r ysgol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu diweddaraf yn arfarniad gonest o waith yr ysgol. Mae'n nodi cryfderau'r ysgol ac ychydig feysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn dadansoddi'r cynnydd a wna disgyblion ar draws yr amrywiaeth gyfan o weithgareddau addysgol yn ddigon da. O ganlyniad, nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar safonau disgyblion.

Argymhelliad 5: Cyflwyno prosesau sicrhau ansawdd ar draws pob darparwr gweithgareddau addysgol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ar adeg yr ymweliad monitro, nid oedd disgyblion yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau addysgol a ddarparwyd gan sefydliadau allanol.

Mae'r pennaeth yn gyfrifol am gyd-drefnu'r holl weithgareddau addysgol a ddarperir gan yr ysgol. Mae'r gweithwyr gofal preswyl yn hwyluso llawer o'r gweithgareddau addysgol yn ystod yr wythnos.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno amrywiaeth eang o brosesau sicrhau ansawdd, sy'n cynnwys yr holl staff. Bellach, mae gweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda i fonitro gwaith gweithwyr gofal preswyl yn y lleoliad addysg. Er enghraifft, mae'r pennaeth yn cynnal arsylwadau rheolaidd o weithgareddau ac mae'n darparu adborth ysgrifenedig gyda meysydd i'w gwella i'r staff. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn coladu deilliannau'r arsylwadau hyn yn ddigon da i lywio datblygiad staff. Nid yw'n rhoi cymorth i staff arfarnu cynnydd disgyblion yn ystod gweithgareddau addysgol.

Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

Gwybodaeth am yr ysgol

Ysgol	The Potteries
Rhif yr ysgol	6666051
Diben yr ymweliad	Arolygiad monitro blynyddol
Dyddiad yr ymweliad	31/10/2016
Perchennog	Care Tech uk
Staff	1 athro amser llawn (sy'n bennaeth hefyd), 1 rheolwr amser llawn, 20 gweithiwr gofal preswyl amser llawn a rhan-amser yn y lleoliad gofal
Nifer y disgyblion	2
Darpariaeth	Addysg dydd i ddisgyblion yn y cartref plant cysylltiedig
Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer	Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol
Arolygiad monitro blynyddol diwethaf	05/10/2015
Arolygiad diwethaf gan AGGCC	04/08/2016

Gwybodaeth am y tîm

Margaret Elisabeth Davies	Arolygydd Cofnodol
Mrs Gill Sims	Arolygydd Tîm